

2010 - 2011

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

Deall eich treth cyngor
Understanding your council tax



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Annwyl breswlydd

Fel Arweinydd newydd y Cyngor, rwyf wedi gorfod wynebu her sylweddol o safbwynt y gyllideb – y cynnydd arian lleiaf gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am y drydedd flwyddyn yn olynol, a gorfod ymateb i ofynion Arolygiad Rheolaeth Corfforaethol oedd yn feirniadol o'r awdurdod.

Rydym wedi ymgynghori gyda'r cyhoedd ar ein blaenoriaethau strategol, strategaeth ariannol a chynigion cyllideb mewn cyfres o sesiynau hawl i holi. Roeddwn yn falch o weld dros 450 o bobl yn mynychu'r cyfarfodydd, ac rydym wedi gwrandao ar yr adborth. Bydd yr economi ac addysg yn parhau'n flaenoriaeth, a byddwn yn gweithio i greu cymunedau cynaliadwy ac iach, yn ogystal â chanolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau fforddiadwy ac effeithlon.

Mae'n gyfnod anodd o safbwynt gwariant cyhoeddus. Mae'n gwasanaethau ni o dan bwysau ac mae'n rhaid i ni wneud mwy a mwy o arbedion ar draws y Cyngor. Yn dilyn ymgynghori cyhoeddus, fe addaswyd ein cynigion cyllidebol er mwyn lleihau ychydig ar y cynnydd yn y dreth, ac fel ymateb i bryderon oedd wedi eu datgan am gyllidebau ysgolion uwchradd a chynnal a chadw'r ffyrdd.

Mae hi wedi bod yn flwyddyn anodd ac ni fydd yn bosib plesio pawb.

Yn anffodus, mae'r Dreth yn gorfod codi o 4.5%, ond rhaid cofio bydd eich Treth Cyngor yn parhau i fod y pedwerydd isaf yng Nghymru.

Mewn cyfnod economaidd anodd, rydym yn gweld bod mwy o bobl yn gymwys am fudd-dal Treth Cyngor, ac rwyf yn annog pobl i wneud cais amdano, yn enwedig os yw eich incwm wedi disgyn. Yr unig ffordd i weld os ydych yn gymwys yw gwneud cais. Os ydych yn gymwys i dderbyn budd-dal Treth Cyngor, dylech ei hawlio.

Os ydych am wybod mwy am fudd-dal Treth Cyngor, cysylltwch â ni ar 01248 751807.

Y Cynghorydd Clive McGregor
Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn
arweinydd@ynysmon.gov.uk



TALU AR LEIN

Bellach gallwch dalu eich biliau i'r Cyngor ar-lein gan ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd. Trwy fynd ar ein gwefan www.ynysmon.gov.uk gallwch dalu eich:

- n Treth cyngor
- n Trethi busnes
- n Rhenti tai
- n Gor-dal budd-dal tai
- n Gofal cartref

Am gymorth pellach neu am fwy o wybodaeth am wneud taliadau ar lein e-bostiwch arianwyr@ynysmon.gov.uk neu ffoniwch 01248 752015.



Dear Resident

As a new Council Leader, I have had to face a difficult budget challenge – the lowest cash increase from the Welsh Assembly Government for the third year running, and meeting the requirements of the authority's critical Corporate Governance Inspection.



We consulted with the public in a series of question time sessions on our strategic priorities, financial strategy and budget proposals. I was glad to see more than 450 people at these meetings, and we have listened to the feedback. The economy and education will continue to be high on the agenda, and we will work to build sustainable and healthy communities as well as focusing on delivering affordable and efficient services.

These are hard times for public spending. Our services are under increased pressure and we have to make more and more savings across every Council department. Following the public consultation, we have changed our budget proposals to reduce by a small amount the proposed Council Tax increase, and to take account of concerns expressed about the budgets for secondary schools and road maintenance.

It has been a difficult year and we will not be able to please everybody.

We regret having to increase Council Tax by 4.5% but I remind you that it will still be the fourth lowest in Wales.

In these difficult economic times, we are finding that more people qualify for Council Tax benefit, and I want to encourage people to apply, especially if your income has fallen. The only way to find out if you qualify is to submit an application. If you qualify for Council Tax benefit, you have a right to claim it.

If you want to know more about Council Tax benefit, please contact us on 01248 751807.

Councillor Clive McGregor
Leader, Isle of Anglesey County Council
leader@anglesey.gov.uk

Ewch i'n gwefan
www.ynysmon.gov.uk

Visit our website:
www.anglesey.gov.uk

PAY ON-LINE

You can now pay your Council bills on-line using your credit or debit card. By visiting our website www.anglesey.gov.uk you can pay your:

- n Council tax
- n Business rates
- n Rent
- n Housing benefits overpayment
- n Homecare

For further assistance or for more information about on-line payments email cashier@anglesey.gov.uk or telephone 01248 752015.

Rhifau ffôn defnyddiol

A oeddech chi'n gwybod ein bod yn derbyn 1.3 miliwn o'ch galwadau ffôn bob blwyddyn?

| | |
|--|--------------|
| Prif switsfwrdd | 01248 750057 |
| Archifau | 01248 752080 |
| Budd-daliadau | 01248 752226 |
| Canolfannau hamdden | |
| Amlwch | 01407 830060 |
| Biwmares | 01248 811200 |
| Caergybi | 01407 764111 |
| Llangefni | 01248 722966 |
| Cofrestru genedigaethau, marwolaethau a phriodasau | 01248 723958 |
| Cynllunio | 01248 752428 |
| Datblygu economaidd a thwristiaeth | 01248 752431 |
| Gwastraff - casglu ac ailgylchu | 01248 752860 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 01248 752736 |
| Iechyd yr Amgylchedd | 01248 752820 |
| Llyfrgelloedd | |
| Amlwch | 01407 830145 |
| Benllech | 01248 852348 |
| Biwmares | 01248 810659 |
| Caergybi | 01407 762917 |
| Cemaes | 01407 711025 |
| Llangefni | 01248 752095 |
| Porthaethwy | 01248 712706 |
| Moelfre | 01248 410331 |
| Niwbwrch | 01248 440770 |
| Rhosneigr | 01407 811293 |
| Oriel Ynys Môn | 01248 724444 |
| Parcio | 01248 752374 |
| Priffyrdd a thrafnidiaeth | 01248 752300 |
| Safonau Masnach | 01248 752840 |
| Tai | 01248 752200 |
| Treth cyngor | 01248 752653 |
| Ysgolion, addysg a gwasanaethau ieuencid | 01248 752900 |



Rhifau argyfwng

| | |
|---------------------------|--------------|
| Gwasanaethau Cymdeithasol | 01286 675502 |
| Priffyrdd | 01248 723062 |
| Tai | 01248 750057 |

Useful phone numbers

Did you know that we receive 1.3 million of your calls each year?

| | |
|--|--------------|
| Switchboard | 01248 750057 |
| Archives | 01248 752080 |
| Benefits | 01248 752226 |
| Council tax | 01248 752653 |
| Economic development and tourism | 01248 752431 |
| Environmental Health | 01248 752820 |
| Highways and transport | 01248 752300 |
| Housing | 01248 752200 |
| Leisure centres | |
| Amlwch | 01407 830060 |
| Beaumaris | 01248 811200 |
| Holyhead | 01407 764111 |
| Llangefni | 01248 722966 |
| Libraries | |
| Amlwch | 01407 830145 |
| Benllech | 01248 852348 |
| Beaumaris | 01248 810659 |
| Cemaes | 01407 711025 |
| Holyhead | 01407 762917 |
| Llangefni | 01248 752095 |
| Menai Bridge | 01248 712706 |
| Moelfre | 01248 410331 |
| Newborough | 01248 440770 |
| Rhosneigr | 01407 811293 |
| Oriel Ynys Môn | 01248 724444 |
| Parking | 01248 752374 |
| Registrar – births, marriages and deaths | 01248 723958 |
| Planning | 01248 752428 |
| Social Services | 01248 752736 |
| Schools, education and youth services | 01248 752900 |
| Trading Standards | 01248 752840 |
| Waste – collection and recycling | 01248 752860 |

Emergency numbers

| | |
|-----------------|--------------|
| Highways | 01248 723062 |
| Housing | 01248 750057 |
| Social Services | 01286 675502 |



I ble mae eich treth cyngor yn mynd?

- Darparu addysg i 9,637 o ddisgyblion
- Cynnal a chadw 717 milltir o briffyrdd a 680 milltir o lwybrau cyhoeddus
- Benthycu dros 300,000 o eitemau bob blwyddyn o lyfrgelloedd cyhoeddus Ynys Môn
- Casglu dros 45,000 tonnell o wastraff bob blwyddyn, ac ailgylchu a chompostio dros 50% ohono
- Rhedeg 38 o glybiau ieuencid a 5 fforwm ieuencid
- Cofrestru tua 225 o briodasau bob blwyddyn
- Graeanu tua 36% o ffyrdd y sir yn ystod y gaeaf
- Cynnal a chadw 9,136 o oleuadau stryd
- Darparu tua 39,200 o wersi nofio i blant yr ynys bob blwyddyn
- Sicrhau diogelwch bwyd mewn 900 o fusnesau gan gynnwys bwytai, gwestai ac ysgolion
- Delio â 1,100 cais cynllunio bob blwyddyn
- Croesawu dros 60,000 o ymwelwyr i Oriel Ynys Môn a dros 55,000 o ymwelwyr i ganolfannau treftadaeth y Sir



Where does your council tax go?

- Providing education to 9,637 children
- Maintaining 717 miles of highways and 680 miles of public footpath
- Lending over 300,000 items a year from Anglesey's public libraries
- Collecting 45,000 tonnes of waste every year and recycling or composting over 50% of it
- Running 38 youth clubs and 5 youth forums
- Registering about 225 marriages each year
- Gritting around 36% the county's roads during the winter months
- Maintaining 9,136 street lights
- Providing around 39,200 swimming lessons to children on the island each year
- Ensuring food safety at 900 businesses including restaurants, hotels and schools
- Dealing with 1,100 planning applications each year
- Welcoming over 60,000 visitors to Oriel Ynys Môn and over 55,000 to the County's heritage sites

Gwybodaeth ariannol am eich treth cyngor

Financial information about your council tax

Gofynion treth cyngor 2010/11

Yn 2010/11 mae'r Cyngor yn bwriadu gwario £174.1m (o'i gymharu â £171.8m yn 2009/10). Ar ôl cymryd i ystyriaeth ffioedd a thaliadau, a grantiau penodol o Llywodraeth Cenedlaethol Cymru neu o llywodraeth ganolog ceir cyllideb net o £118.9 m.

Daw'r arian sydd ei angen yn rhannol o'r Dreth Gyngor ac yn rhannol trwy'r Llywodraeth fel Grant Cynnal Refeniw a chyfraniad o Gronfa'r Dreth Annomestig Genedlaethol.

Mae'r gyllideb refeniw net wedi codi £2.2m ers 2009/10, sef cynnydd o 1.9% ac mae'r arian ychwanegol yn mynd i dalu am:

Council tax requirement 2010/11

In 2010/11 the Council plans to spend £174.1m (compared with £171.8m for 2009/10). After taking account of fees and charges, along with specific grants from the Welsh Assembly Government (WAG) or central government, the net budget is £118.9 m.

The money required comes partly from Council Tax and partly through WAG as Revenue Support Grant and a contribution from the National Non-domestic Rate Pool.

The net revenue budget has increased by £2.2m from 2009/10, an increase of 1.9% and the additional money will pay for:

| | £m |
|---|------------|
| Chwyddiant / Inflation | 1.5 |
| Datblygu Gwasanaethau – gan gynnwys / Service Development – including: | |
| Ynys Ynni / Energy Island | 0.1 |
| Gwasanaethau Cymdeithasol Demograffi / Social Services Demography | 0.3 |
| Cryfhau Capasiti Corfforaethol / Strengthening Corporate Capacity | 0.4 |
| Eraill / Other | 0.7 |
| Rbedion Cyllideb Gwastraff / Savings Waste Budget | -0.8 |
| Arbedion Cyllideb Cynnal Ffyrdd / Savings Road Maintenance Budget | -0.1 |
| Arbedion Cyllideb Ysgolion / Savings Schools Budget | -0.7 |
| Arbedion Effeithlonrwydd / Efficiency Savings | -0.3 |
| Arbedion Eraill / Other Savings | -0.1 |
| Wedi ei Gyllido o Falansau yn 2009/10 / Funded from Balances in 2009/10 | 1.2 |
| CYFANSWM / TOTAL | 2.2 |

Daw rhan o'r £2.2m ychwanegol o'r Llywodraeth (cyllid parhaol i fyny 1.0% o 2009/10) gyda 4.5% o gynnydd ar y Dreth Gyngor.

Part of the additional £2.2m comes from WAG (recurrent funding up 1.0% from 2009/10) with a 4.5% increase on the Council Tax.

Gwario Safonol

Yr Aseiad Gwariant Safonol (AGS) yw aseiad y Llywodraeth o'r hyn y mae angen i Ynys Môn ei wario yn 2010/11 er mwyn darparu'r un lefel o wasanaeth ag awdurdodau unedol eraill Cymru petaent yn gwario yn unol â'u AGS. £120.5m yw'r AGS am eleni ac mae'r gyllideb net felly yn 99% o'r AGS, sef yr un canran â 2009/10.

Standard Spending

The Standard Spending Assessment (SSA) is WAG's assessment of the Isle of Anglesey's need to spend in 2010/11 to provide the same level of service as other Welsh unitary authorities if they also spend at the level of their SSAs. The SSA for this year is £120.5m and the net budget is therefore 99% of SSA, which is the same percentage as 2009/10.


O ble daw'r arian? Where does the money come from?

Gwariant Gros

Llai:
Grantiau Penodol
Ffioedd a Thaliadau
O'r balansau

Gwariant Net

Llai:
Grant Cynnal Refeniw
Cronfa'r Dreth Annomestig
Gofnion treth y cyngor



£m

174.1 Gross Expenditure

Less:

40.0 Specific Grants

15.1 Fees and Charges

0.1 From balances

118.9 Net Expenditure

Less:

75.0 Revenue Support Grant

19.5 Business Rates Pool


24.4 Council tax requirement

Ble mae'r arian yn cael ei wario? Where is the money spent?

Gwariant Gros

Addysg a Hamdden
Amgylcheddol a Thechnegol
Tai a Gwas. Cymdeithasol
Rheolwr Gyfarwyddwr
Cyllid a Budd-dal
Corfforaethol a Democraidd
Costau Cyllido Cyfalaf
Ardollau
Wrth-gefn

Cyfanswm



£m **Gross Expenditure**

63.2 Education and Leisure

29.5 Environmental and Technical

38.9 Housing and Social Services

5.6 Managing Director

21.8 Finance and Benefits

2.2 Corporate and Democratic

7.9 Capital Financing Costs

3.3 Levies

1.7 Contingencies

174.1 Total

CYLLIDEB REFENIW NET 2010/11 NET REVENUE BUDGET 2010/11

2009/10

| | | GROS GROSS | INCWM INCOME | NET |
|---------------|---|-------------------|---------------------|---------------|
| £'000 | GWASANAETHAU SERVICES | £'000 | £'000 | £'000 |
| 49,698 | Addysg a Hamdden Education and Leisure | 63,201 | 13,462 | 49,739 |
| 21,246 | Amgylcheddol a Thechnegol Environmental and Technical | 29,498 | 8,506 | 20,992 |
| 26,684 | Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol Housing and Social Services | 38,918 | 11,509 | 27,409 |
| 3,798 | Rheolwr Gyfarwyddwr Managing Director | 5,562 | 1,751 | 3,811 |
| 3,079 | Cyllid Finance | 21,856 | 18,812 | 3,044 |
| 2,148 | Corfforaethol a Democraidd Corporate and Democratic | 2,254 | 13 | 2,241 |
| 7,752 | Costau Cyllido Cyfalaf Capital Financing Costs | 7,882 | 0 | 7,882 |
| -880 | Llog a Dderbynnir Interest Receivable | 0 | 410 | -410 |
| 3,320 | Ardollau* Levies* | 3,257 | 0 | 3,257 |
| -744 | Grant Cytundeb Gwella Improvement Agreement Grant | 0 | 669 | -669 |
| -508 | Grant Amddifadedd Deprivation Grant | 0 | 0 | 0 |
| -1,620 | Cyfraniad i'r/o'r Balansau Contribution to/from Balances | 0 | 67 | -67 |
| 1,736 | Wrth gefn Contingency | 1,722 | 0 | 1,722 |
| 115,709 | Cyfanswm Gwariant Refeniw Net Total Net Revenue Expenditure | 174,150 | 55,199 | 118,951 |
| -73,866 | Llai/Less: Grant Cynnal Refeniw Revenue Support Grant | | | -75,037 |
| -18,787 | Cronfa'r Dreth Annomestig Business Rates Pool | | | -19,557 |
| 35 | Rhyddhad Trethi Rate Relief | | | 35 |
| 23,091 | O Dreth y Cyngor From Council Tax | | | 24,392 |

* Mae'r ffigwr a ddangosir uchod dan y pennawd "ardollau" yn cynnwys ardollau gan y cyrff canlynol:

* The figure shown under the heading "levies" is made up of levies from the following bodies:

| 2009/10 | | 2010/11 |
|------------------|---|------------------|
| £ | | £ |
| 3,184,230 | Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru North Wales Fire and Rescue Authority | 3,253,190 |
| 1,740 | Bwrdd Draenio Mewnol Cors Ddyga Malltraeth Marsh Internal Drainage Board | 1,870 |
| 132,060 | Pysgodfeydd Môr Gogledd Cymru a'r Gogledd Orllewin North Western and North Wales Sea Fisheries | 0 |
| 1,500 | Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan Board of Conservators Towyn Trewan | 1,500 |
| <u>3,319,530</u> | | <u>3,256,560</u> |

Nid oes unrhyw un o'r ardollau yn cael eu trin fel treuliau arbennig.

None of the levies were treated as special expenses.

BALANS GWEITHREDOL

Mae'r Cyngor yn cynnal balansau er mwyn cwrdd â gwariant wrth aros am incwm ac ar gyfer unrhyw eitem o wariant annisgwyl a allai fod ar frys. Rhagwelir mai £4.7m fydd balansau cyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2010 a £4.6m ar 31 Mawrth 2011.

WORKING BALANCE

The Council maintains balances to meet expenditure pending receipt of income and for any unexpected item of expenditure which may be of an emergency nature. It is anticipated that the Council's general balances at 31 March 2010 will be £4.7m and £4.6m at 31 March 2011.

CYLLIDEB CYFALAF - BUDDSODDI I'R DYFODOL

Nid yw'r Cyngor yn gwario'i holl arian ar wasanaethau dydd i ddydd (gwariant refeniw). Defnyddir y term gwariant "cyfalaf" i gyfeirio at brosiectau mawr megis prynu tir, codi neu wella adeiladau a sicrhau peiriannau a cherbydau. Mae Cyllideb Gyfalaf yr Awdurdod ar gyfer 2010/11 yn £29m sy'n cymharu efo £27m am 2009/10.

CAPITAL BUDGET - INVESTING IN THE FUTURE

Not all Council spending is on day-to-day services (revenue expenditure). Major projects such as buying land, constructing or improving buildings and acquiring machinery and vehicles are termed "capital" expenditure. The Authority's Capital Budget for 2010/11 amounts to £29m which compares with £27m for 2009/10.





FAINT FYDDWCH YN EI DALU?

Amcangyfrifir y bydd pob £1 o'r Dreth Gyngor y bydd y Cyngor yn ei chodi ar Fand D yn creu £29,555.89. Bydd y £825.30 a gyfyd y Cyngor (i dŷ sy'n cyfateb i Fand 'D') yn creu incwm o £24,392,476. At hyn rhaid ychwanegu'r treth Gyngor mae Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi penderfynu arni, sef £201.33 (Band D) i gwrdd â'i wariant, bydd hyn yn creu £5,950,487. Bydd y Dreth Gyngor penderfynodd pob Cyngor Cymuned arni yn codi £835,999 arall a cheir manylion am y dreth hon isod. Bydd hyn ar gyfartaledd yn ychwanegu £28.29 at y Dreth Gyngor (Band D).

Mae'n dilyn y bydd y Dreth Gyngor ar gyfartaledd i dŷ Band D yn y Sir hon am 2010/11 yn:

$£825.30 + £201.33 + £28.29 = \underline{£1,054.92}$
ac mae hyn yn rhyw £20 yr wythnos.

Mae hyn yn gynydd o 4.2% ar y Dreth Gyngor gyfartalog a oedd yn daladwy ar eiddo Band D yn 2009/10. Mae'r cynnydd yn rhan y Cyngor Sir yn 4.5% ac yn rhan yr Awdurdod Heddlu yn 3.0%.

HOW MUCH WILL YOU PAY?

Each £1 of Council Tax levied by the council on Band D is estimated to provide £29,555.89. The £825.30 levied by the Council (for an equivalent Band 'D' property) will provide income of £24,392,476. In addition to this the North Wales Police Authority has set a Council Tax of £201.33 (Band D) to meet its expenditure and this will yield the sum of £5,950,487. Council Tax set by each Community Council within the County will raise a further £835,999 details of which are given below which, on average, gives a further Council Tax (Band D) of £28.29.

The average Council Tax for a Band D property for the County in 2010/11 is therefore:

$£825.30 + £201.33 + £28.29 = \underline{£1,054.92}$
which is approximately £20 per week.

This is an increase of 4.2% on the average Council Tax that was payable for a Band D property in 2009/10. The increase in the County Council element is 4.5% and in the Police Authority element is 3.0%.

PRAESEPTAU'R CYNGHORAU CYMUNED A THREE COMMUNITY AND TOWN COUNCIL PRECEPTS

| CYMUNED COMMUNITY | PRAESEPT 2009/10 PRECEPT £ | PRAESEPT 2010/11 PRECEPT £ | CYFATEBOL BAND D EQUIVALENT £ | TRETH CYNGOR BAND D 2010/11 COUNCIL TAX £ |
|---------------------------------|-------------------------------------|-------------------------------------|--|--|
| Amlwch | 67,808.00 | 72,116.53 | 50.50 | 1,077.13 |
| Biwmares/Beaumaris | 25,983.22 | 26,642.03 | 25.25 | 1,051.88 |
| Caergybi/Holyhead | 228,510.00 | 243,922.00 | 65.85 | 1,092.48 |
| Llangefni | 95,209.00 | 97,111.00 | 53.00 | 1,079.63 |
| Porthaethwy/Menai Bridge | 63,849.00 | 64,718.00 | 47.11 | 1,073.74 |
| Llanddaniel-fab | 5,350.00 | 5,450.00 | 15.62 | 1,042.25 |
| Llanddona | 5,150.00 | 5,150.00 | 14.48 | 1,041.11 |
| Cwm Cadnant | 27,000.00 | 27,000.00 | 24.10 | 1,050.73 |
| Llanfair Pwllgwyngyll | 30,500.00 | 30,500.00 | 23.91 | 1,050.54 |
| Llanfihangel Ysgeifiog | 9,750.00 | 10,050.00 | 16.28 | 1,042.91 |
| Bodorgan | 3,500.00 | 6,500.00 | 15.14 | 1,041.77 |
| Llangoed | 8,886.00 | 9,019.00 | 14.54 | 1,041.17 |
| Llangristiolus a Cherrigceinwen | 4,000.00 | 4,000.00 | 7.06 | 1,033.69 |
| Llanidan | 7,500.00 | 7,500.00 | 19.03 | 1,045.66 |
| Rhosyr | 15,927.00 | 15,927.00 | 16.71 | 1,043.34 |
| Penmynydd | 1,500.00 | 1,350.00 | 6.03 | 1,032.66 |
| Pentraeth | 11,400.00 | 11,500.00 | 21.41 | 1,048.04 |
| Moelfre | 9,251.33 | 9,336.00 | 15.50 | 1,042.13 |
| Llanbadrig | 5,665.00 | 5,500.00 | 8.50 | 1,035.13 |
| Llanddyfnan | 6,240.00 | 6,552.00 | 14.02 | 1,040.65 |
| Llaneilian | 6,852.00 | 7,292.00 | 13.50 | 1,040.13 |
| Llannerch-y-medd | 4,772.70 | 4,915.89 | 10.10 | 1,036.73 |
| Llaneugrad | 1,800.00 | 3,500.00 | 18.97 | 1,045.60 |
| Llanfair Mathafarn Eithaf | 44,373.00 | 44,427.00 | 25.91 | 1,052.54 |
| Cylch y Garn | 4,250.00 | 4,250.00 | 11.07 | 1,037.70 |
| Mechell | 5,000.00 | 6,500.00 | 12.25 | 1,038.88 |
| Rhos-y-bol | 6,000.00 | 6,000.00 | 13.36 | 1,039.99 |
| Aberffraw | 6,000.00 | 6,000.00 | 21.34 | 1,047.97 |
| Bodedern | 5,000.00 | 5,000.00 | 12.25 | 1,038.88 |
| Bodffordd | 4,200.00 | 5,000.00 | 12.44 | 1,039.07 |
| Trearddur | 18,402.00 | 18,771.00 | 15.65 | 1,042.28 |
| Tref Alaw | 2,626.00 | 2,626.00 | 10.52 | 1,037.15 |
| Llanfachraeth | 4,074.00 | 4,074.00 | 18.44 | 1,045.07 |
| Llanfaelog | 17,900.00 | 18,300.00 | 15.94 | 1,042.57 |
| Llanfaethlu | 3,000.00 | 3,000.00 | 11.19 | 1,037.82 |
| Llanfair-yn-neubwll | 7,000.00 | 7,000.00 | 12.52 | 1,039.15 |
| Y Fali/Valley | 15,500.00 | 15,500.00 | 16.47 | 1,043.10 |
| Bryngwran | 6,000.00 | 6,500.00 | 18.85 | 1,045.48 |
| Rhoscolyn | 2,000.00 | 2,000.00 | 5.83 | 1,032.46 |
| Trewalchmai | 5,500.00 | 5,500.00 | 15.78 | 1,042.41 |

TRETH CYNGOR - GWYBODAETH ESBONIADOL

Bandiau priso treth gyngor

Mae eich Dreth Gyngor yn adlewyrchu'r band a roddir ar eich annedd domestig gan y Prisiwr Dosbarth. O'r 1 Ebrill 2005 fe ailbrisiwyd eich annedd domestig gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Bydd pob annedd ddomestig (tai, byngalos, fflatiau ac yn y blaen) yn ymddangos yn y rhestrau priso yng nghyswllt y Dreth Gyngor. Gosodir pob annedd yn un o'r naw band yn ôl eu gwerth cyfalaf ar y farchnad agored ar 1 Ebrill 2003. Y rhain yw'r bandiau yng Nghymru:

Band Priso

- A Nid dros £44,000
- B Dros £44,000 ond nid dros £65,000
- C Dros £65,000 ond nid dros £91,000
- D Dros £91,000 ond nid dros £123,000
- E Dros £123,000 ond nid dros £162,000
- F Dros £162,000 ond nid dros £223,000
- G Dros £223,000 ond nid dros £324,000
- H Dros £324,000 ond nid dros £424,000
- I Dros £424,000

Anheddau sydd wedi'u heithrio

Bydd rhaid talu'r Dreth Gyngor ar fwyafrif yr anheddau. Ond eithrir rhai ac ni fydd rhaid talu Treth Cyngor arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys eiddo sydd:

- 1 yn cael eu meddiannu gan fyfyrwyr, priod i fyfyrwr neu'n berson sy'n ddibynnol ar fyfyrwr heb fod yn Ddinesydd Prydeinig ac ni chaiff weithio ym Mhrydain;
- 1 yn neuaddau preswyl i fyfyrwyr;
- 1 ym mherchnogaeth yr Ysgrifennydd Gwladol dros Amddiffyn;
- 1 lle mae un person, sy'n gyfrifol dros dalu'r dreth gyngor yn aelod neu'n ddibynnol ar aelod o luoedd tramor neu ddiplomydd;
- 1 yn cael eu meddiannu yn unig gan bobl dan 18;

COUNCIL TAX - EXPLANATORY INFORMATION

Council tax valuation bands

Your Council Tax bill reflects the band placed on your domestic dwelling by the District Valuer. From 1 April 2005 the National Assembly for Wales revalued your domestic property.

All domestic dwellings (houses, bungalows, flats and so on) will appear in Council Tax valuation lists. Each dwelling is placed in one of nine bands according to its open market capital value as at 1 April 2003. The bands for Wales are:

Valuation Band

- A Not exceeding £44,000
- B Over £44,000 but not exceeding £65,000
- C Over £65,000 but not exceeding £91,000
- D Over £91,000 but not exceeding £123,000
- E Over £123,000 but not exceeding £162,000
- F Over £162,000 but not exceeding £223,000
- G Over £223,000 but not exceeding £324,000
- H Over £324,000 but not exceeding £424,000
- I Over £424,000

Exempt dwellings

Most dwellings will be subject to the Council Tax. But some will be exempt and there will be no Council Tax payable. These properties include:

- 1 those occupied by students, a student's spouse or dependent not being a British Citizen and cannot work in the UK;
- 1 halls of residence for students;
- 1 those owned by the Secretary of State for Defence;
- 1 those where one of the liable persons is a member or dependent on a member of a Visiting Force or a Diplomat;
- 1 those solely occupied by people under 18;

- 1 yn cael eu meddiannu yn unig gan bobl dan anabledd meddyliol difrifol;
- 1 yn rhandy neu'n rhan hunan gynhwysol tebyg o eiddo a feddiennir gan berthynas penodedig neu anabl i'r personau sy'n byw yng gweddill yr eiddo.

ac eiddo gwag:

- 1 sydd yn cael neu angen gwaith strwythurol neu waith trwsio sylweddol (i fyny at 12 mis o'r dyddiad aeth y tŷ yn anaddas i fyw ynddo);
- 1 sydd ym mherchnogaeth elusen (eithrio am 6 mis);
- 1 sydd ar y cyfan heb ei ddodrefnu (eithrio am 6 mis);
- 1 sydd wedi cael eu gadael yn wag gan rywun sydd wedi mynd i garchar, ysbyty, hostel, cartref preswyl neu gartref nyrsio neu i anedd arall i gael gofal personol;
- 1 sydd wedi eu gadael gan berson i roi gofal personol i eraill mewn eiddo arall;
- 1 lle mae'r gyfraith yn gwahardd i neb fyw ynddo;
- 1 lle mae rhywun wedi marw a llai na 6 mis wedi mynd heibio ers caniatad profiant neu lythyrau gweinyddu;
- 1 sydd yn disgwyl cael eu meddiannu gan Weinidog o unrhyw grefydd;
- 1 ym mherchnogaeth myfyrwyr sydd wedi eu meddiannu ddiwethaf ganddynt fel eu hunig neu brif breswylfa;
- 1 sydd wedi eu hailfeddiannu gan forgeisedigion;
- 1 sydd yn gyfrifoldeb ymddiriedolwr methdaliad;
- 1 sydd yn safle neu'n angorfa heb garafan na chwch arno;
- 1 sydd yn rhan o eiddo arall e.e. rhandai nain nad oes modd eu gosod ar wahân.

- 1 those solely occupied by people who are severely mentally impaired;
 - 1 an annexe or similar self contained part of a property which is occupied by a prescribed or disabled relative of the residents living in the rest of the property.
- and empty properties:
- 1 that are undergoing or require structural alteration or major repair (exempt for 12 months from date of being uninhabitable);
 - 1 that are owned by a charity (exempt for 6 months);
 - 1 that are substantially unfurnished (exempt for 6 months);
 - 1 that are left empty by someone who has gone into prison, hospital, hostel, nursing or residential home or another dwelling to obtain personal care;
 - 1 that are left by someone to provide personal care to others at another dwelling;
 - 1 that are prohibited by law from being occupied;
 - 1 where somebody who has died and less than 6 months has elapsed since probate or letter of administration have been granted;
 - 1 that are waiting to be occupied by a Minister of any religion;
 - 1 owned by students that were last occupied by them as their sole or main residence;
 - 1 that were repossessed by mortgagees;
 - 1 where the liable person is a Trustee in bankruptcy;
 - 1 that are pitches/moorings not occupied by a caravan or boat;
 - 1 which form a part of another dwelling, e.g. granny annexes and cannot be let separately.



Disgowntiau

Bydd swm y Dreth Gyngor a delir am eiddo yn cael ei ddiystyru mewn rhai amgylchiadau. Y rhain yw:

- 1 Disgownt person sengl. Bydd pobl sydd yn byw ar ben eu hunain yn derbyn 25% disgownt.
- 1 Bydd rhai pobl yn cael eu diystyru at bwrpas disgowntiau. Y rhain yw:
 - personau sydd yn y ddalfa
 - rhai efo anabledd meddyliol difrifol
 - person sy'n 18 mlwydd oed y parheir i dalu budd-dâl plant ar eu cyfer
 - myfyrwyr, myfyrwyr tramor (a phriod dibynnol),
 - nyrsys dan hyfforddiant, prentisiaid neu dan gynllun hyfforddiant ieuencid
 - cleifion tymor hir mewn ysbytai a chleifion mewn cartref preswyl neu nyrsio
 - gweithiwr gofal/gofalwr personol
 - preswylwyr rhai hostelau/lletyau dros nos i'r digartref
 - diplomyddion a'u priod (heblaw bod y priod yn Ddinesydd Prydeinig)
 - personau o ddisgrifiad penodedig eraill sef aelodau o gymdeithasau crefyddol neu ambell bencadlys rhyngwladol neu amddiffyn; ymadawyr diweddar o'r ysgol a rheini'n cyrraedd 18 oed.
- 1 **Anheddau gwag.** Am y chwe mis cyntaf ni thelir y Dreth Gyngor ar eiddo sydd heb ei ddodrefnu a neb yn byw ynddo. Ar ôl chwe mis (os nad yw'r eiddo wedi ei eithrio) mae disgownt o 50% yn ddilys heblaw bod yr awdurdod bilio yn penderfynu yn wahanol. Mae'r Cyngor yma wedi penderfynu o'r 1 Ebrill 2007 i BEIDIO caniatâu'r disgownt o 50% ar eiddo heb ei ddodrefnu a neb yn byw ynddo am dros 6 mis. Mae'r penderfyniad i BEIDIO caniatâu disgownt yn berthnasol hefyd i eiddo a fu'n wag am 12 mis neu ragor sydd â gwaith altro strwythurol yn cael ei wneud arno neu y mae angen gwneud gwaith o'r fath arno neu fel arall, mae'n eiddo y mae'n rhaid gwneud gwaith atgyweirio sylweddol arno fel bod modd byw ynddo. Hefyd, ni chaniateir disgownt i eiddo sydd heb ei ddodrefnu a neb yn byw ynddo lle mae 12 mis neu ragor wedi mynd heibio ers caniatâu profiant neu lythyr gweinyddu.

Discounts

The amount of Council Tax payable for a dwelling will be discounted under certain circumstances. These are:

- 1 Single person discount. Persons who live on their own will receive a 25% discount.
- 1 Certain persons will be disregarded for discount purposes. These are:
 - persons in detention
 - the severely mentally impaired
 - 18 year olds in respect of whom child benefit is still payable
 - students, foreign students (and dependant spouses),
 - studentnurses, apprentices or youth training trainees
 - long term hospital patients and patients in residential or nursing homes
 - care worker/personal carer
 - residents of certain night shelters and hostels
 - diplomats and their spouses (provided that the spouse is not a British Citizen)
 - persons of other descriptions currently prescribed as members of religious communities or certain international or defence headquarters; recent school leavers and those attaining 18 years.
- 1 **Unoccupied dwellings.** An unfurnished and unoccupied property will pay no Council Tax for the first six months. After six months (if the property is not exempt) a discount of 50% will apply unless the billing authority decides otherwise. This Council has decided from 1 April 2007 NOT to allow the 50% discount for unfurnished and unoccupied properties that have been unfurnished and unoccupied for over 6 months. The decision NOT to allow a discount will also apply to a property that has been unoccupied for 12 months or more which is undergoing or requires structural alteration or major repair to make it habitable and also to an unfurnished and unoccupied property where 12 months or more has elapsed since probate or letters of administration have been granted.

Mae'r Cyngor yma wedi penderfynu parhau i BEIDIO â rhoi disgownt ar eiddo lle does neb yn byw sy'n:

- ail gartrefi neu yn dai haf
- eiddo wedi ei ddodrefnu a neb yn byw ynddo
- eiddo gwag sydd â chyfyngiad cyfreithiol yn gwahardd pobl rhag ei feddiannu

- 1 Gall y Cyngor hefyd bennu neu amrywio disgowntiau ac eithriadau i gymryd i ystyriaeth broblemau lleol, fel llifogydd a thrychinebau naturiol a hefyd i adlewyrchu anghenion y gymuned. Nid yw'r Cyngor wedi pennu dosbarthiadau penodol at y pwrpas hwn ond mae modd i ni ystyried ceisiadau unigol.

Pobl ag anabledd

Os oes arnoch chi, neu rywun sy'n byw gyda chi, angen ystafell ychwanegol neu fwy o le yn eich cartref oherwydd anabledd, mae'n bosibl y gellwch gael gostyngiad ar eich bil. Byddai'r gostyngiad hwnnw'n cymryd bod eich cartref wedi'i roi yn y band prisio union dan ei wir fand. Mae gostyngiad ar gael i'r rhai sy'n byw mewn eiddo Band A hefyd.

Os ydych yn meddwl eich bod yn gymwys am eithriad, disgownt neu ryddhad anabledd o'r Dreth Gyngor cysylltwch â'r Adran Gyllid, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW neu ffoniwch (01248) 752653/4/5/6 neu ffacs (01248) 752233 neu e-bost refeniw@ynysmon.gov.uk

Apeliadau

Ar ôl 30 Medi 2006 dim ond apeliadau ar achlysuron cyfyngedig y gallwch eu gwneud yn erbyn eich band Dreth Gyngor ar y Restr Brisio 2005. Y rhain yw, ar ôl dymchwel eiddo neu droi tai yn fflatiau neu newidiadau materol yn yr ardal leol sy'n effeithio ar y gwerth ac o fewn chwe mis i newid mewn band i'ch eiddo a wnaed gan y Swyddog Rhestr neu newid band i eiddo tebyg i'ch un chi a wnaed gan y llys neu ddod yn drethdalwr newydd.

The Council will continue with its decision NOT to award a discount for unoccupied property that are:

- second or holiday homes
- properties that are furnished and unoccupied
- an unoccupied property having a restriction on occupancy by law

- 1 The Council can also determine or vary discounts and exemptions to take account of local problems such as flooding and natural disasters and also to reflect the needs of the community. The Council has not determined specific classes for this purpose but cases can be considered on an individual basis.

People with disabilities

If you, or someone who lives with you, need an extra room or extra space in your home because of a disability, you may be able to get a reduction in your bill. This reduction would assume that your home had been placed in the valuation band covering the values immediately below the actual band. Those living in Band A properties also qualify for a reduction.

If you believe you may qualify for a Council Tax exemption, discount or disability relief please contact the Finance Department, Isle of Anglesey County Council, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW or telephone (01248) 752653/4/5/6, fax (01248) 752233 or e-mail revenue@anglesey.gov.uk

Appeals

Since the 30 September 2006 only certain formal limited appeals can now be made against your Council Tax band for the 2005 Valuation List. These are after demolition of a property, conversion of houses to flats or a physical change in the local area affecting the property's value and within 6 months of a band change to your property by the Listing Officer or a band change made by the court to a similar property as yours or becoming a new taxpayer for a property.

Serch hynny, os rydych yn meddwl bod eich band prisio yn neu wedi bod yn anghywir MAE'N BOSIB gall y Swyddog Rhestr adolygu eich band.

Mae mwy o wybodaeth fanwl ar gael gan y Swyddog Rhestru, Tŷ Glyder, 339 Stryd Fawr, Bangor, Gwynedd, LL57 1YA neu ffôn 01248 287800.

Mae'n bosib hefyd i chwi apelio pe credech na ddylech fod yn talu'r Dreth Gyngor, er enghraifft, am nad y chi yw'r perchennog, neu fod yr eiddo wedi ei eithrio neu bod camgymeriad wrth weithio'r bil allan. Petaech yn dymuno apelio rhaid i chi, yn y lle cyntaf ysgrifennu at y Cyngor. Cewch ragor o fanylion am y dulliau apelio (gan gynnwys gwybodaeth am gyfrifoldeb y Tribiwnlysoedd Prisio) wrth ofyn i'r Cyngor. Chewch chi ddim peidio â thalu'r dreth sy'n ddyledus pan fyddwch yn gwneud yr apêl. Os yw'r apêl yn llwyddiannus yna byddwch â'r hawl i gael ad-daliad ar y rhan honno o'r dreth nad oedd rhaid i chi ei thalu.

TRETHI ANNOMESTIG CENEDLAETHOL - GWYBODAETH ESBONIADOL

Mae'r wybodaeth isod yn esbonio rhai o'r termau a allai gael eu defnyddio ar ffurflen hawlio trethi annomestig ac yn y wybodaeth ategol. Gellir cael gwybodaeth bellach am rwymedigaeth i dalu trethi annomestig oddi wrth yr awdurdodau bilio.

Ardrethi Annomestig

Mae ardrethi annomestig a gesglir gan awdurdodau bilio yn cael eu talu i mewn i gronfa ganolog a'u hailddosbarthu i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol ac i awdurdodau heddlu. Bydd eich cyngor a'ch awdurdod heddlu yn defnyddio eu cyfrannau o'r incwm ardrethi a ailddosbarthwyd, ynghyd ag incwm oddi wrth y rhai sy'n talu'r Dreth Gyngor iddynt, y grant cynnal refeniw a ddarperir gan Weinidogion Cymru a symiau penodol eraill, i dalu am y gwasanaethau a ddarperir ganddynt.

However if you consider your valuation band is or has been incorrect, the Listing Officer MAY be able to review your band.

Further detailed information is available from the Listing Officer, Tŷ Glyder, 339 High Street, Bangor, Gwynedd, LL57 1YA or tel 01248 287800.

You may also appeal if you consider that you are not liable to pay Council Tax, for example, you are not the owner, or the property is exempt or there is a mistake in calculating your bill. If you wish to appeal you should first notify the Council in writing. Further details on the appeal procedures (including the role of Valuation Tribunals) may be obtained from the Council. Making an appeal does not allow you to with-hold payment of tax owing in the meantime. If your appeal is successful you will be entitled to a refund of any overpaid tax.

NATIONAL NON DOMESTIC RATES - EXPLANATORY INFORMATION

The information given below explains some of the terms which may be used on a non-domestic rate demand and in the supporting information. Further information about liability to non domestic rates may be obtained from billing authorities.

Non-domestic Rates

The non-domestic rates collected by billing authorities are paid into a central pool and redistributed to county and county borough councils and police authorities. Your council and police authority use their shares of redistributed rate income, together with income from their council tax payers, revenue support grant provided by the Welsh Ministers and certain other sums, to pay for the services they provide.

Gwerth Ardrethol

Pennir gwerth ardrethol eiddo annomestig gan swyddog prisio annibynnol o Asiantaeth y Swyddfa Brisio yn y mwyafrif o achosion. Caiff pob eiddo annomestig ei ailbrisio bob pum mlynedd. O 1 Ebrill 2010 ymlaen, gwerth trethiannol eiddo yw ei werth rhentol blynyddol ar y farchnad agored fel yr oedd ar 1 Ebrill 2008. Mae mwy o wybodaeth ar gael o'r swyddfa brisio leol neu ar y wefan www.voa.gov.uk.

Yn achos eiddo cyfansawdd sy'n rhannol ddomestig ac yn rhannol annomestig, ymwneud â'r rhan annomestig yn unig y mae'r gwerth trethiannol. Dangosir gwerthoedd pob eiddo y mae trethi'n daladwy i'ch awdurdod mewn perthynas â hwy yn y rhestr drethu leol, y gellir archwilio copi ohoni yn Swyddfa Prisio Cyllid y Wlad, 339 Stryd Fawr Bangor, LL57 1YA ac hefyd Cyngor Sir Ynys Môn, Adran Gyllid, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW.

Newid y Gwerth Ardrethol

Gall y gwerth ardrethol newid os cred y swyddog prisio fod amgylchiadau'r eiddo wedi newid. Hefyd o dan rai amgylchiadau gall y trethdalwr (a rhai pobl eraill sydd â diddordeb yn yr eiddo) gynnig newid yn y gwerth. Os na fydd y trethdalwr a'r swyddog prisio yn cytuno ar y gwerth cyn pen 3 mis ar ôl i'r cynnig gael ei wneud, cyfeirir y mater fel apêl at Dribiwnlys Prisio. Gellir cael rhagor o wybodaeth am sut mae cynnig newid mewn gwerth ardrethol oddi wrth y swyddfeydd prisio.

Y Lluosydd Ardrethu Annomestig Cenedlaethol

Dyma'r gyfradd yn y bunt y lluosir y gwerth ardrethol â hi i roi swm y bil ardrethol blynyddol ar gyfer eiddo. Mae'r lluosydd a bennir bob blwyddyn gan Weinidogion Cymru yr un fath ar gyfer Cymru gyfan ac, ag eithrio mewn blwyddyn ailbrisio, ni all godi i fwy na chyfradd y cynnydd yn y mynegai prisiau manwerthu.

Rateable Value

The rateable value of non-domestic property is fixed in most cases by an independent valuation officer of the Valuation Office Agency. All non-domestic property is revalued every 5 years. From 1 April 2010, the rateable value of a property represents its annual open market rental value as at 1 April 2008. More information is available from the local valuation office or the website www.voa.gov.uk.

For composite properties which are partly domestic and partly non-domestic the rateable value relates to the non domestic part only. The values of all property in respect of which rates are payable to your authority are shown in the local rating list, a copy of which may be inspected at Inland Revenue Valuation Office, 339 High Street, Bangor, LL57 1YA and the Isle of Anglesey County Council, Finance Department, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW.

Alteration of Rateable Value

The rateable value may alter if the valuation officer believes that the circumstances of the property have changed. The ratepayer (and certain others who have an interest in the property) may also in certain circumstances propose a change in value. If the ratepayer and the valuation officer do not agree the valuation within 3 months of the proposal being made, the matter will be referred as an appeal to the Valuation Tribunal. Further information about how to propose a change in a rateable value is available from valuation offices.

National Non-domestic Rating Multiplier

This is the rate in the pound by which the rateable value is multiplied to give the annual rate bill for a property. The multiplier set annually by the Welsh Ministers is the same for the whole of Wales and except in a revaluation year cannot rise by more than the rate of the increase in the retail price index.

Cynigion ac Apelau

Mae gwybodaeth am yr amgylchiadau y gellir cynnig newid yn y gwerth ardrethol ac am sut y gellir gwneud cynnig o'r fath ar gael gan y swyddfa brisio leol a ddangosir uchod. Mae mwy o wybodaeth am y trefniadau apelio ar gael gan Adran Gyllid, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW neu oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru, y Tîm Trethiant Lleol, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ, neu Asiantaeth y Swyddfa Brisio ar www.voa.gov.uk.

Ardrethu Eiddo heb ei Feddiannu

Gall perchnogion eiddo annomestig sydd heb ei feddiannu fod yn agored i dalu ardrethi eiddo gwag a godir yn ôl 100% o'r rhwymedigaeth arferol. Mae'r rhwymedigaeth yn dechrau pan fydd yr eiddo wedi bod yn wag am 3 mis, neu, yn achos ffatrioedd a warysau, pan fydd yr eiddo wedi bod yn wag am 6 mis. Mae mathau penodol o eiddo wedi'u heithrio rhag ardrethi eiddo gwag.

Rhyddhad Elusennol a Dewisol

Mae hawl gan elusennau a chlybiau chwaraeon cymunedol amatur i gael rhyddhad o 80% o ardrethi ar unrhyw eiddo annomestig:

- (a) yn achos elusen, os defnyddir yr eiddo yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion elusennol, neu
- (b) yn achos clwb, os yw'r clwb wedi'i gofrestru gyda Chyllid a Thollau EM.

Mae gan awdurdodau bilio ddisgresiwn i beidio â chodi rhan neu'r cyfan o'r 20% sy'n weddill o'r bil ar eiddo o'r fath a chaiff hefyd roi rhyddhad ar eiddo a feddiennir gan gyrff penodol nad ydynt wedi'u sefydlu nac yn cael eu rhedeg i wneud elw.

Am fwy o wybodaeth am glybiaudylech gysylltu â: Cyllid y Wlad, Ardal Gogledd Cymru, Plas Gororau, Ellice Way, Parc Technoleg, Wrexham LL13 7YY neu www.inlandrevenue.gov.uk/cymraeg

Proposals and Appeals

Information about the circumstances in which a change in rateable value may be proposed and how such a proposal may be made is available from the local valuation office shown above. Further information about the appeals arrangements may be obtained from the Finance Department, Isle of Anglesey County Council, Swyddfa'r Sir, Llangefni, LL77 7TW or from the National Assembly for Wales, Local Taxation Team, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ or the Valuation Office Agency, whose website is www.voa.gov.uk.

Unoccupied Property Rating

Owners of unoccupied non-domestic properties may be liable to pay empty property rates which are charged at 100% of the normal liability. Liability begins after the property has been empty for 3 months or, in the case of factories and warehouses, after the property has been empty for 6 months. Certain types of property are exempt from empty property rates.

Charitable and Discretionary Relief

Charities and community amateur sports clubs are entitled to 80% relief from rates on any non-domestic property where:

- (a) in the case of charities, the property is wholly or mainly used for charitable purposes, or
- (b) in the case of a club, the club is registered with HM Revenue & Customs.

Billing authorities have discretion to remit all or part of the remaining 20% of the bill on such property and can also give relief in respect of property occupied by certain bodies not established or conducted for profit.

For more information regarding clubs you should contact the Inland Revenue, North Wales Area, Plas Gororau, Ellice Way, Technology Park, Wrexham, LL13 7YY or visit www.inlandrevenue.gov.uk

Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach

Mae Gorchymyn Ardrethu Annomestig (Rhyddhad Ardrethi i Fusnesau Bach)(Cymru) 2008 yn darparu ar gyfer rhyddhad ardrethi i fusnesau bach. Mae'r manylion llawn gan gynnwys y meini prawf ar gymhwysra, yr eithriadau a'r gofynion gweithdrefnol ar gael gan yr awdurdod bilio.

Dyma'r eiddo cymwys a'r rhyddhad ardrethi perthnasol:

- (a) eiddo sydd a gwerth ardrethol o £2,400 neu lai – rhyddhad o 50%;
- (b) eiddo sydd a gwerth ardrethol rhwng £2,401 a £7,800 – rhyddhad o 25%;
- (c) swyddfeydd post (ac eiddo sy'n cynnwys swyddfeydd post) sydd a gwerth ardrethol heb fod yn fwy na £9,000 – rhyddhad o 100%;
- (ch) swyddfeydd post (ac eiddo sy'n cynnwys swyddfeydd post) sydd a gwerth Ardrethol rhwng £9,001 a £12,000 – rhyddhad 50%;
- (d) eiddo manwerthu (hynny yw, lle y mae'r busnes a redir yn gyfan gwbl neu'n bennaf yn ymwneud a gwerthu nwyddau) sydd a gwerth ardrethol rhwng £7,801 a £11,000 – rhyddhad o 25%;
- (dd) eiddo sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion gofalu am blant neu ddarparu gofal dydd gan berson a gofrestrwyd o dan Ran XA o Ddeddf Plant 1989 sydd â gwerth ardrethol rhwng £2,001 a £12,000 - rhyddhad o 50%.
- (e) eiddo sy'n cael ei ddefnyddio'n gyfan gwbl at ddibenion undeb credyd a gofrestrwyd o dan Ddeddf Undebau Credyd 1979 sydd â gwerth ardrethol rhwng £2,001 a £9,000 - rhyddhad o 50%

Am gopi print bras cysylltwch ag Uned Gyfathrebu, Cyngor Sir Ynys Môn ar 01248 752128.

Small Business Rate Relief

The Non-Domestic Rating (Small Business Relief)(Wales) Order 2008 makes provision for rates relief for small businesses. Full details including the eligibility criteria, the exceptions and the procedural requirements are available from the billing authority.

The eligible properties and relevant rate relief are:

- (a) properties with a rateable value (“RV”) of £2,400 or less – 50% relief;
- (b) properties with an RV between £2,401 and £7,800 – 25% relief;
- (c) post offices (and properties which include post offices) with an RV of not more than £9,000 – 100% relief;
- (d) post offices (and properties which include post offices) with an RV between £9,001 and £12,000 – 50% relief;
- (e) retail properties (ie where the trade or business consists wholly or mainly of the sale of goods) with an RV between £7,801 and £11,000 - 25% relief;
- (f) properties used wholly for the purposes of child minding or provision of day care by a person registered under Part XA of the Children Act 1989 and with an RV between £2,001 and £12,000 - 50% relief.
- (g) properties used wholly for the purposes of a credit union which is registered under the Credit Unions Act 1979 and with an RV between £2,001 and £9,000 - 50% relief.

For a large print copy please contact the Communications Unit, Isle of Anglesey County Council on 01248 752128.



MAE HELP WRTH LAW GAN DÎM GENESIS CYMRU 2 MÔN

Gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth am ddim. Os ydych allan o waith neu'n hawlio budd-daliadau, a bod eich amgylchiadau'n golygu ei bod yn anodd i chi gael at addysg, hyfforddiant neu waith, efallai bydd Genesis yn gallu eich cynorthwyo gan ddarparu'r gefnogaeth sydd ei angen arnoch.

HELP IS AT HAND FROM THE GENESIS WALES 2 ANGLESEY TEAM

Free information, advice and support. If you are out of work or claiming benefit, and your circumstances mean it's hard for you to get into learning, training or work, Genesis may be able to help provide the support you need.

Cysylltwch â Thîm Môn i weld os ydych yn gymwys:
Contact the Anglesey Team to find out if you are eligible:

0800 234 6745

genesis@ynysmon.gov.uk

Rhoddir blaenoriaeth i chi os byddwch yn disgyn i un, neu fwy, o'r dosbarthiadau a ganlyn: Rhiant ar eich pen eich hun, 16 – 18 oed (nid mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant), dros 50, gyda chyflwr iechyd sy'n cyfyngu gwaith neu anabledd, lleiafrif du neu ethnig

You will be given priority if you fall into one, or more, of the following categories: Lone Parent, 16-18yrs (not in education, employment or training), have a work limiting health condition or disability, are over 50, black and ethnic minority